

## **Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022**

### **298 - Beirniadaeth Cyfansoddi Cerddoriaeth BL 10 ac 11**

#### **Beirniad: Bethan Smallwood**

Daeth chwech cyfansoddiad i law a phob canmoliaeth iddynt am fynd ati i greu cerddoriaeth yn ystod cyfnod sydd wedi bod mor llwm yn gerddorol heb unrhyw berfformiadau byw i ysgogi'r cyfansoddwyr ifainc hyn.

Pump o ddarnau offerynnol .pdf a gafwyd ac un trac sain sy'n gyfuniad o lais ac offerynnau.

#### **Tonnau Tryweryn**

Unawd i glarinet gyda chyfeiliant piano yw hwn; darn â llawer o nodweddion da ynddo sy'n disgrifio symudiad y dwr ar lyn Tryweryn er nad yn aml y gwelir cynnwrf mawr ar y gronfa ddwr enwog hon. Mae'n waith wedi ei gynllunio a'i gyflwyno'n dda o ran y cyfarwyddiadau ac mae'n cynnwys rhan ganol gyferbyniol iawn.

#### **Jean**

Cyfansoddiad bach hyfryd i'r ffliwt, ffidil, 'cello, piano a drymiau sydd yma wedi ei gyflwyno er cof am famgu, a dyna'r cysylltiad Cymreig mae'n amlwg. Gwneir defnydd helaeth o batrymau cordiol sy'n cael eu hailadrodd drwy'r gwaith. Mae'r rhannau offerynnol yn dderbyniol iawn ond angen marciau brawddeg.

#### **Y trac sain gan yr asyn anturiaethus**

Cyfansoddiad mp4 wedi ei greu ar feddalwedd Bandlab yw hwn. Mae'n cynnwys alaw gofiadwy, ac er nad oes llawer o amrywiaeth yn y geiriau, mae hyn yn eithaf derbyniol yn y math hwn o gân gyfoes. Mae cyfalawon offerynnol deniadol iawn yn cael eu hychwanegu i'r gwead wrth fynd ymlaen. Mae'r gwaith yn arddangos dawn greadigol llawn addewid.

## **Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022**

### **Taith yr Afon Nyfer**

Pumawd chwyth a geir yma, ac mae'r cyfansoddwr yn amlwg yn gyfarwydd â'r cyfrwng. Defnyddia amryw o motifau bach sy'n cael eu pasio o un offeryn i'r llall gan greu darlun lliwgar a bywiog o'r afon yn llifo i lawr o'r Preseli i'r môr yn Neudraeth. Ceir newid tempo i greu cynnwrf y dwr cyn ymuno â'r môr. Gwaith canmoladwy.

### **Afon Merlin**

Cyfansoddiad taclus a threfnus ar gyfer y piano yw hwn yn disgrifio taith yr afon o'r uchelderau. Mae'r syniad cychwynnol yn un hyfryd, llawn dychymyg, gyda llawer o fynegiant yn y brawddegau cerddorol. Ceir adran ganol gyferbyniol fwy cynhyrfus sy'n dderbyniol iawn. Er bod cynllun cordiol sefydlog drwy'r darn, nid yw hyn yn tynnu oddi wrth apêl y gwaith.

### **Y Sheriff**

Darn i delyn, pedwarawd llinynnol a'r trwmped yw hwn, wedi ei gyfansoddi gyda Ken Owens y chwaraewr rygbi fel symbyliad. Mae'n dibynnu'n helaeth ar ailadrodd yr un patrymau rhythmig a chordiol, ac mae'r defnydd da o efelychiant yn helpu i glymu'r gwaith at ei gilydd.

1af - Lefi Dafydd

2il - Milo Davies

3ydd - Jencyn Corp